

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGRISTIOLUS A CERRIGCEINWEN

**Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Llangristiolus 11/05/2026 am 6:30yh
/ Minutes of the meeting held 11/05/2026 @ 6:30pm in the Hall, Llangristiolus.**

Presennol: Cynghorwyr / Cllrs – Sioned Williams (Cadeirydd), H Munro, A H Jones, I Humphreys, A Hughes, R Jinar.

Clerc / Clerk – G Parry

Cynghorwyr Sir / County Councillors -

Ymddiheuriadau: LI Iorwerth, E Clode, L Roberts, G Bebb a N Roberts

Dim gwasanaeth cyfiethu / No translation service

**Gweithredu
Action**

1.	Croeso ac ymddiheuriadau Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb.	Welcome and apologies The Chair opened the meeting and welcomed all.	
2.	Datgan diddordeb – Dim datganiad o fuddiant i'w ddatgan	Declaration of interest – No declaration of interest to declare	
3.	Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol – 20/04/26 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir gan Cyng. A Hughes, eiliwyd gan Cyng. I Humphreys.	Present minutes of the previous meeting – 20/04/26 Minutes of the meeting were accepted as accurate by Clr. A Hughes, seconded by Clr. I Humphreys.	
4.	Materion yn codi o'r cofnodion	Matters arising from the minutes	
4.1	Cae Chwarae Rhostrehwfa:	Rhostrehwfa Playing Field:	
	a) Grant - dim gwybodaeth bellach. Trafodwyd y dyfynbris a dderbyniwyd ar gyfer atgyweirio'r giât a'r gylchfan yn Henblas. Cytunwyd yn unfrydol i fwrw ymlaen. Archwiliad meysydd chwarae i ddigwydd ym mis Mehefin b) Lles - mae'r les wedi cael ei dderbyn, wedi'i lofnodi gan y clwb pêl-droed a'r Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn ei gyflwyno i'n cyfreithiwr. Cytunodd yr aelodau i adolygu'r Lles ym mis Mehefin 2027	a) Grant – no further information. Discussed the quotation received for the repairs to gate and roundabout in Henblas. Unanimously agreed to proceed. Playgrounds inspection to take place in June b) Lease - The lease has been received, signed by the football club and Community Council. Clerk to submit to our solicitor. Members agreed to review the lease in June 2027	
4.2	Mynwent Llangristiolus a) Dim gwasanaeth yn y fynwent.	Llangristiolus Cemetery a) No services at the cemetery	SW

	b) Ymholiad Mrs Perrin – yn dilyn y cais yma, cytunwyd i ddiweddarau rheolau'r fynwent er mwyn rheoli'r mannau yn y fynwent. c) Cais am fainc ger Capel Mawr - Cafwyd cais am osod mainc y tu allan i'r wal yng Nghapel Mawr. Cyfeiriwyd y cais i IOACC, a gwrthododd y cais oherwydd pryderon diogelwch ynglŷn â'r lôn.	b) Mrs Perrin enquiry - following this request, it was agreed to update the cemetery rules in order to control the spaces at the cemetery. c) Request for a bench by Capel Mawr - A request was received for the installation of a bench outside the wall at Capel Mawr. The request was referred to IOACC, who refused the request due to safety concerns regarding the road.	
4.3	Cyfeiriad ebost personal	Email address personal	
	Y Clerc i baratoi adborth ar gyfer y cyfarfod nesaf.	The Clerk to prepare feedback for the next meeting.	GP
4.4	Awdit 2025/26	Audit 2025/26	
	Adroddodd y Clerc fod y papurau wedi'u cyflwyno i Gyngor Gwynedd, archwilio mewnol a benodwyd, a bod atebion i'r cwestiynau ychwanegol a ofynnwyd amdanynt yn cael eu paratoi.	The Clerk reported that the paperwork had been submitted to Gwynedd Council, the appointed internal auditor, and that responses to the additional questions requested were being prepared.	
4.5	Grant – rhoi balchder a lle	Pride & Place grant	
	Eitemau a drafodwyd i'w hystyried o dan y gwariant grant - ffens newydd y tu allan i Neuadd y Pentref, Planhigion, arwyddion Cyflymder yn Fflachio, tacluso o amgylch y lloches bysiau, bwrdd hysbysu newydd a mainc gyferbyn â Fferm Capel.	Discussed items to be considered under the grant expenditure - new fence outside the Village Hall, Planters, Flashing Speed signs, tidying up around the bus shelter, new notice board and bench opposite Capel Farm.	
4.6	Bagiau Cwn	Dog Bags	
	Rhoddodd y Clerc gorïad i'r dosbarthwr. Adroddwyd bod gennym ddigon o stoc o fagiau ar hyn o bryd. Arwyddion glanhau	Clerk provided a key to the dispenser. It was reported we currently have sufficient stock of bags. Warning signs	
4.7	Adroddiad Monitro cyllideb 2025/26	Budget monitoring report 2025/26	
	Cyflwynodd y Clerc y ffigurau incwm a gwariant am y cyfnod hyd ddiwedd Chwarter 4.	The Clerk presented the income and expenditure figures for the period up to the end of Quarter 4.	
5	Gohebiaeth	Correspondence	
5.1	Cau ffordd dros dro – Lôn Plas Paradwys – 06/05/26 – 08/05/26	Temporary road closure – Lôn Plas Paradwys – 06/05/26 – 08/05/26	
5.2	Cais am fainc Capel Mawr	Request for a bench Capel Mawr	
5.3	Cofnodion Pwyllgor ardal Ynys Môn	Anglesey Area meeting minutes	
5.4	Cais am rodd - Eisteddfod Genedlaethol Urdd 2026	Request for donation - Urdd National Eisteddfod 2026	

5.5	Gorchymyn clir ffordd a chyfyngiad cyflymder 20 m.y.a. - A5 Mona, 18/05/26 - 31/05/26	Temporary clearway and 20mph speed restriction – A5 Mona, 18/05/26 – 31/05/26	
5.6	Cwyn wedi'i derbyn am dractorau'n gyrru'n gyflym drwy'r pentref	Complaint received about speeding tractors through the village	
5.7	Derbyniwyd cais am rodd tuag at brynu baneri ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.	A request was received for a donation towards the purchase of bunting for the Urdd Eisteddfod	GP
6	I gysidro ceisiadau:	To consider Planning Applications:	
6.1	FPL/2026/71 - Monfa, Ffordd Caergybi, Mona - cais llawn ar gyfer trosi'r anecs i lety gwyliau - I wrthod y cais, nid yn gynaliadwy	FPL/2026/71 – Monfa, Holyhead Road, Mona – full application for the conversion of the annexe into a holiday let – to refuse the application, not sustainable.	
	Penderfyniadau Cynllunio:	Planning Decision:	
6.2	Dim	None	
7	Cymeradwyo taliadau:	To approve payments:	
7.1	Dim taliadau i'w cymeradwyo	No payments to approve	
	Incwm	Income	
7.2	Precept - £2,666.67	Precept - £2,666.67	
7.3	Zurich ad-daliad - £80.31	Zurich disbursement - £80.31	
8	Adroddiad gan y Cynghorwyr Sir	Report by County Councilors	
8.1	Dim adrodd	No report	
9	Dyddiad cyfarfod nesaf – 15/06/26	Date of next meeting – 15/05/26	